

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Ymgynghoriad ar Newid Trefn Adnabod, Cofrestru a Rhoi Gwybod am Symudiadau Da Byw
Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Gweithredu'r Polisiâu Anifeiliaid
Adran:	Yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwchswyddog Cyfrifol (enw):	Vicky Jones
Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:	Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd
Dyddiad Dechrau:	30 Medi 2021

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae pwerau newydd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (y DU) 2020 yn caniatáu diwygio rheoliadau'r UE sy'n llywodraethu'r drefn o roi gwybod am symudiadau da byw. Mae hyn yn rhoi pwerau i Gymru symleiddio'r broses bresennol a gwella'r gallu i olrhain pob rhywogaeth o dda byw.

Ar y sail hon, rydym wedi bod yn ymgysylltu'n weithredol â'r diwydiant yn casglu barn ffermwyr, marchnadoedd, lladd-dai, canolfannau casglu, cymdeithasau bridiau ac eraill ar weithredu Dyfeisiau Adnabod Electronig (EID) Gwartheg a newidiadau i brosesau adrodd ar symudiadau.

Mae canlyniadau'r ymgysylltu hwn wedi llywio'r cyfeiriad polisi presennol fel yr amlinellir yn ein hymgyngoriad, Newid Trefn Adnabod, Cofrestru a Rhoi Gwybod am Symudiadau Da Byw.

Y newidiadau arfaethedig yw;

- Rhoi gwybod am symudiad cyfan (gorfodol) – rhaid nodi Rhif y Daliad (CPH) cychwyn y daith a CPH pen y daith wrth gofnodi symudiad pob anifail
- Rhoi gwybod am symudiadau ymlaen llaw – rhoi gwybod am bob symudiad da byw cyn i'r anifail adael daliad cychwyn y daith (pob rhywogaeth)
- Cofrestru a rhoi gwybod am symudiadau yn ddi-bapur
- Cyfleuster cofrestr buches/diadell ar-lein ar gyfer pob rhywogaeth
- Gwybodaeth am deithiau – cofnodi gwybodaeth am deithiau a thrafnidiaeth yn orfodol ar bob adroddiad symud ar gyfer pob rhywogaeth
- Dangos a digwyddiadau – datblygu proses cofnodi symudiadau cylchol ar gyfer pob rhywogaeth sy'n symud i ac o feysydd sioe
- Adnabod ac olrhain moch

Yn ogystal, mae rheoliadau'r UE yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno EID gwartheg o fewn cyfnod pontio o 5 mlynedd ar ôl ei fabwysiadu. Er ein bod bellach wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, rhaid inni barhau i gadw at rai o reoliadau'r UE i ganiatáu symud nwyddau'n rhad ac am ddim, ac mae hyn yn cynnwys gweithredu EID gwartheg. Bydd EID gwartheg yn ei gwneud yn ofynnol i wartheg gael eu hadnabod yn electronig gyda thag clust sy'n cynnwys sglodion electronig. Bydd hyn yn gofyn am neilltuo lliw newydd ar gyfer tag EID Gwartheg a system rifo newydd.

Hirdymor

- ♦ *Pa dueddiadau, heriau a chyfleoedd hirdymor a allai effeithio ar y cynnig?*

Mae arferion ffermio modern yn symud fwyfwy tuag at ddulliau digidol ac mae data o'r System Orlhain Gwartheg (CTS) bresennol yn dangos bod 96% o'r trafodion adrodd i CTS yn cael eu cwblhau'n electronig. Nod y cynigion hyn yw cynyddu'r gallu i olrhain drwy annog rhoi gwybod am symudiadau yn electronig cyn i'r anifail adael y daliad, gan ddileu'r defnydd o bapur o bosibl.

Un rhwystr ar hyn o bryd ar gyfer rhoi gwybod am symudiadau da byw yw'r gofyniad deddfwriaethol bod angen dogfen symud bapur ar anifeiliaid i fynd gyda hwy ar eu taith. Yn amodol ar ymgynghori, bydd deddfwriaeth yn cael ei diwygio a bydd yn galluogi cofrestru a symud pob rhywogaeth o dda byw yn electronig.

- ♦ *Sut y mae'r cynnig yn rhwystro / lliniaru'r effeithiau gwael yn y tueddiadau hyn neu'n hwyluso / gwneud y defnydd gorau o'r effeithiau da?*

Ein nod yw i'r cynigion rheoleiddio gefnogi'r sector amaeth i alluogi dyfodol mwy llewyrchus a chydnerth i'r diwydiant, tra'n parhau'n ddigon hyblyg i gefnogi'r broses o drosglwyddo i ddarpariaeth ddigidol hirdymor i bawb.

Byddwn yn anelu at hwyluso hyfforddiant rhyngweithiol ar y cynigion newydd ar gyfer pob sector o'r diwydiant ffermio.

Atal

- ♦ *Sut y mae'r cynnig yn cefnogi'r gwaith o dorri'r cylchoedd negyddol megis tlodi, iechyd gwael, difrod amgylcheddol a cholli bioamrywiaeth?*

Er bod y diwydiant o'r farn bod y drefn olrhain da byw bresennol yn ddigonol, credwn y gellir gwneud gwelliannau er mwyn gwneud y prosesau presennol yn fwy cywir a chyflymach drwy leihau amser prosesu, gwallau a baich gweinyddol drwy ddarllen EID ac adrodd electronig.

Bydd newidiadau penodol fel rhoi gwybod am symudiadau cyfan a rhoi gwybod am symudiadau ymlaen llaw yn cynyddu'r gallu i olrhain anifeiliaid ac yn darparu mwy o ddiogelwch bwyd tra byddai dileu dogfennau symud papur yn lleihau'r effeithiau amgylcheddol.

- ♦ *A yw'r cynnig yn mynd i'r afael â symptom neu â gwraidd y mater? Os ydyw, sut? Os yw'n mynd i'r afael â symptom, beth y gellir ei wneud am wraidd y mater?*

Bydd y cynigion yn hwyluso'r gwaith o roi gwybod yn electronig am bob symudiad da byw i EIDCymru. Bydd hyn yn golygu olrhain anifeiliaid heintiedig a/neu fwyd heintiedig yn well ac yn gyflymach, a fydd yn ein galluogi i ymateb yn gyflym a rhoi'r gorau i unrhyw risgiau posibl yn y dyfodol i'r gadwyn fwyd.

- ♦ *Sut y gallai'r cynnig leihau ei effeithiau negyddol ei hun ee lleihau gwastraff a'r defnydd o adnoddau, allyriadau a'r effaith ar ansawdd yr aer, effaith negyddol ar gydlyniant cymunedol / cymdeithasol?*

Bydd gweithredu newidiadau arfaethedig i'r drefn o roi gwybod am symudiadau da byw yn cryfhau'r system olrhain bresennol ar gyfer da byw a chynhyrchion bwyd gan ei gwneud yn gyflymach ac yn fwy cywir. Y nod yw dod â manteision i ffermwyr a rhanddeiliaid eraill gan y bydd yn lleihau'r baich gweinyddol drwy symleiddio'r gweithdrefnau gweinyddol presennol. Ein nod yw gwella diogelwch bwyd a diogelu iechyd anifeiliaid.

Integreiddio

- ♦ *Sut y gallai'r cynnig hwn gysylltu a chyfrannu at agendâu polisi cyhoeddus gwahanol a sicrhau nifer o fanteision ee sut y gall prosiect trafndiaeth gefnogi gwelliannau i'r maes iechyd, yn ddiwylliannol neu i lefelau diweithdra?*

Nod y cynigion yn yr ymgynghoriad yw sicrhau y gellir olrhain a rheoli clefydau'n llawn. Mae llawer o dda byw ar draws ffin Cymru felly rydym yn gweithio'n agos gyda gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau, lle bo'n bosibl, cysondeb o ran polisiau ac amserlenni fel mai prin fydd yr effaith ar fasnach drawsffiniol a symudiadau da byw.

- ♦ *Pa gamau ymarferol ydych chi wedi'u cymryd i integreiddio eich cynnig â'r Rhaglen Lywodraethu, y cynlluniau a'r amcanion llesiant ynghyd â chynlluniau ac amcanion cyrff a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill er mwyn sicrhau bod y cynnig yn cyfrannu cymaint â phosibl ar draws y saith nod llesiant?*

Ystyriwyd sut y gallai ein cynigion effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ac ar y goblygiadau i ddiwydiant amaethyddol Cymru yn ei gyfanrwydd ynghyd â chyrff cyhoeddus yng Nghymru ac yn ehangach.

Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â'r diwydiant, awdurdodau lleol, lladd-dai a marchnadoedd da byw, Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, a chymdeithasau bridiau i farnu dilysrwydd y cynigion o bob sector.

O adeg lansio'r ymgynghoriad, bydd rhagor o ymgysylltu ynghyd â chynlluniau helaeth ar gyfer hyfforddiant ac arweiniad pan ddaw'r trefniadau newydd i rym.

Cydweithio

- ♦ *Pwy yw'r partneriaid sydd â diddordeb cyffredin yn y cynnig hwn?*

Rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant drwy ein Grŵp Cyngori ar Adnabod Da Byw (LIDAG) a grwpiau ffocws y diwydiant a'r ffermwyr. Rydym yn bwriadu parhau i gynnwys y partneriaid hyn wrth gyflawni'r newidiadau polisi arfaethedig.

- ♦ *Sut y mae'r partneriaid hynny wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynnig a'r gwaith cynllunio i'w wireddu, a beth fydd eu cyfraniad hwy iddo?*

Mae LIDAG wedi cyfrannu at y cynigion ymgynghori hyn yn ystod cyfarfodydd mawr a rhai llai mwy penodol, ac maent hefyd wedi rhoi adborth ysgrifenedig. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r grŵp i drafod canlyniadau'r ymgynghoriad hwn ac i weithredu unrhyw newidiadau deddfwriaethol sy'n ofynnol.

Cynnwys

- ♦ *Sut y bu'r bobl y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?*

Ers 2019, rydym wedi bod yn ymgysylltu â'r diwydiant ar ein cynigion ac wedi casglu cryn dipyn o wybodaeth gan ffermwyr, marchnadoedd, lladd-dai, canolfannau casglu, cymdeithasau bridiau ac eraill. Rydym wedi ymweld â llawer o sioeau a digwyddiadau amaethyddol, wedi cynnal grwpiau ffocws ar gyfer ceidwaid a rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant, wedi mynychu digwyddiadau a seminarau hyfforddi ac wedi gweithio i gysgodi ystod eang o unigolion sy'n gweithio yn y sector symud da byw.

- ♦ *Beth sy'n bwysig i'r bobl y mae'r cynnig yn effeithio arnynt a sut y gallant fod yn rhan o'r gwaith o'i wireddu?*

Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y ffordd orau o olrhain yn gyflym ac yn gywir a hynny drwy darfu cyn lleied â phosibl ar y diwydiant. Yn dilyn ein gwaith trafod â'r diwydiant hyd yma, gofynnwyd yn gyson i ni ddatblygu system sy'n gweithio, yn syml i'w defnyddio, sy'n darparu cyn lleied o faich gweinyddol â phosibl ac i alluogi cysondeb a llif data di-dor rhwng systemau trawsffiniol.

Hoffem gael barn ar unrhyw rwystrau i'r cynigion hyn fel rhan o'r cyfnod ymgynghori a chan ddefnyddio'r wybodaeth hon byddwn yn sefydlu grwpiau trafod i ymdrin â'r materion

Yn ogystal â'r pum ffordd o weithio uchod, ystyriwch y meysydd canlynol:

Effaith

- ♦ *Beth yw'r prif ddadleuon o blaid ac yn erbyn y cynnig? Cyfeiriwch at dystiolaeth; cydnabyddwch fylchau sylweddol yn ein gwybodaeth a disgrifiwch unrhyw gynlluniau i'w llenwi.*

Gwnaed yr awgrymiadau canlynol ar gyfer gwella'r systemau presennol yn adroddiad a gomisiynwyd gan Defra o'r enw 'Review of Livestock Identification and Traceability in the UK':

- **tagio gwartheg yn electronig**

- **cofnodi symudiadau defaid a geifr ar-lein**
- **llai o ofynion am gofnodion papur ar y fferm**
- dileu cyfnodau gwahardd symud y tu allan i adegau o achosion o glefydau
- **mwyr o ddefnydd o EID i roi adborth i ffermwyr**
- **safoni rheoliadau rhwng gwledydd y DU**
- adnabod dofednod a dyfrffowl yn unigol
- cofnodi symudiadau ceffylau

Mae pump o'r gwelliannau a awgrymwyd uchod wedi'u datblygu ac fe'u cynhwysir yn yr ymgynghoriad arfaethedig.

- ♦ *Pa mor eang ydych chi wedi ystyried y dadleuon hyn drwy gynnwys a chydweithio â phobl?*

Rydym wedi ymgysylltu â'r diwydiant yng Nghymru ac yn ehangach, i gasglu barn i fwydo'r cynigion polisi a nodir yn yr ymgynghoriad. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu drwy gydol y lansiad ymgynghori ac yn annog ymatebion gan y gymuned amaethyddiaeth gyfan.

Costau ac Arbedion

- ♦ *Beth fydd cost y cynnig a sut y bydd yn cael ei ariannu?*

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn deillio o'r ddogfen cynigion ymgynghori gan fod y ffocws ar newid i reolau gweinyddol a diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol. Fodd bynnag, bydd costau'n gysylltiedig â gweithredu EID Gwartheg a chostau posibl ar gyfer rhai sectorau diwydiant o ran trosglwyddo i'r newidiadau arfaethedig i'r drefn gofrestru a rhoi gwybod am symudiadau, ond mae'r rhain yn debygol o fod yn weddol isel.

Bydd costau ac arbedion o ganlyniad i'r cynigion yn cael eu hasesu fel rhan o Ddadansoddiad Cost a Budd ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r diwygiadau i ddeddfwriaeth a gynlluniwyd ar gyfer 2022.

- ♦ *Sut y gellir lleihau'r costau drwy gynnwys a chydweithio ar draws Llywodraeth Cymru a/neu ar y cyd â rhanddeiliaid allanol?*

Rydym yn gweithio'n agos gyda gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau cysondeb o ran ein hamserlenni polisi a systemau, er mwyn sicrhau na fydd unrhyw un genedl yn ysgwyddo mwy o gost i'w diwydiant na'u cymheiriaid ar draws y ffin.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda gweithgynhyrchwyr tagiau, awdurdodau lleol a grwpiau diwydiant.

- ♦ *A oes arbedion a sut y bydd y rhain yn cael eu gwireddu?*

Credwn y bydd arbedion cost yn cael eu gwireddu'n gyffredinol ar gyfer y diwydiant cyfan o ganlyniad i'r effeithlonrwydd y bydd y newidiadau hyn yn eu cyflwyno i'r gofynion gweinyddol ar gyfer rhoi gwybod am symudiadau. Mae'r prosesau presennol ar gyfer rhoi gwybod am

symudiadau yn seiliedig ar bapur yn bennaf, a phan fydd y prosesau electronig wedi'u galluogi, bydd hyn yn dileu/lleihau'r elfen hon o'r gost.

Systemau

- ♦ ***A oes deddfwriaeth yn cael ei chynnig? Os felly, mae'n debygol y bydd angen i chi lunio [Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#). Gallwch ddefnyddio allbwn yr Asesiad Integredig o'r Effaith hwn i'ch helpu.***

Diben yr ymgynghoriad hwn yw cyflwyno is-ddeddfwriaeth. Cwblhawyd Adroddiad Effaith allanol gan ADAS a bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ffurfiol Llywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r offeryn statudol.

ADRAN 8. CASGLIAD

8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Wrth ddatblygu ein cynigion ymgynghori, rydym wedi casglu barn oddi wrth ystod eang o randdeiliaid. Rydym wedi ymgysylltu â nifer fawr o randdeiliaid drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb a/neu rithwir dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Byddwn yn parhau i ymgysylltu drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Mae'r asesiadau effaith drafft yn y ddogfen hon, a'r cynigion yn yr ymgynghoriad, yn rhan bwysig o'r broses ymgynghori, ymgysylltu a pholisi. Rydym yn croesawu barn ar yr effeithiau a nodwyd, y dystiolaeth a gyflwynwyd ac unrhyw feysydd nad ydym wedi'u hystyried eto.

Rydym yn defnyddio ein grŵp rhanddeiliaid LIDAG a sefydlwyd peth amser yn ôl yn rheolaidd, i ganiatáu i swyddogion ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gynigion a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i ni symud drwy'r broses ymgynghori a gweithredu polisi.

8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Prif effeithiau'r cynigion ymgynghori yw gwella'r gallu i olrhain da byw a galluogi busnesau amaethyddol yng Nghymru i wrthsefyll yn y tymor hir. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd unrhyw effaith economaidd bosibl ar y sector a gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Mae'r effeithiau hyn yn cael eu hystyried ar wahân, fel rhan o'r dadansoddiad cost a budd a gynhwysir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r cynigion ymgynghori.

Mae cofnodi symudiadau da byw ac EID gwartheg yn cynnig nifer o fanteision i reoleiddwyr diogelwch bwyd, rhanddeiliaid yn y diwydiant, gweithwyr iechyd proffesiynol y llywodraeth a defnyddwyr. Mae'r mathau o fanteision ehangach posibl yn amrywio o'r gallu i ddiogelu defnyddwyr yn gryfach sy'n deillio o briodoleddau hygyrdd cynnyrch bwyd sy'n gysylltiedig ag olrhain bwyd ac anifeiliaid, i wella iechyd a lles pobl ac anifeiliaid, gan gynnwys gwella'r ffordd y caiff clefydau eu hatal.

Y manteision allweddol yw:

- Gwell gallu i olrhain ar gyfer rheoli achosion o glefydau.
- Da ar gyfer rheoli da byw drwy gysylltu â data rheoli a pherfformiad eraill.
- Arbed amser os caiff tagiau eu darllen yn electronig (er enghraifft, byddai profion TB yn haws os darllenir tagiau'n awtomatig, gellir darllen tagiau EID budr yn electronig heb eu glanhau)
- Gwella cywirdeb cofnodion gyda llai o bosibilrwydd o gamgymeriadau.
- Haws trin a darllen y tagiau pan fydd nifer mawr o anifeiliaid.

- Lleihau gwaith papur.
- Trosglwyddo data'n effeithlon ac yn hygyrch ar y ffôn.

Mae manteision eraill na ellir eu mesur gan gynnwys y canlynol:

- Drwy'r gallu i'w darllen yn hawdd a gwell cywirdeb data (llai o wallau) o ganlyniad i ddefnyddio EID, gellir lleihau'r amser a gymerir i roi gwybod am symudiadau. Ynghyd â rhoi gwybod am symudiadau ymlaen llaw a chofnodi electronig, bydd y broses o gofnodi symudiadau yn cael ei gwneud mewn amser real. Bydd gwell cyflymder, cywirdeb ac olrhain ar hyd y gadwyn cyflenwi bwyd yn arwain at well rheolaeth rhag ofn y bydd achosion o glefydau.
- Gall EID a system olrhain effeithiol wella'r ffordd y rheolir iechyd anifeiliaid yn ystod achosion o glefydau. Bydd adnabod cyflym drwy EID a chofnodi symudiadau anifeiliaid yn gwella'r gallu i olrhain ar hyd y gadwyn gyflenwi, a all sbarduno ymatebion a mesurau cyflym i ddelio ag anifeiliaid heintiedig ac atal clefydau rhag lledaenu yn y dyfodol. Bydd hyn yn arwain at fudd cyhoeddus ehangach i iechyd pobl.
- Gall EID a dull gwell o olrhain ddarparu mantais gystadleuol i fasnach o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn gallu darparu'r lefel uchaf o sicrwydd olrhain i gwsmeriaid ac wrth reoli ac ymateb i glefydau anifeiliaid neu achosion cysylltiedig.
- Gall EID arwain at arbedion o ran cost a gwella effeithlonrwydd mewn meysydd eraill o ran rheoli ffermydd, er enghraifft i fonitro perfformiad anifeiliaid, cynllunio rheoli, defnyddio meddyginiaethau, brechu, profi TB, ardystio etc.

Er bod y cynigion wedi'u datblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid y diwydiant, mae'n bosibl y bydd rhai effeithiau negyddol a'r rhai arwyddocaol yw:

- Mae system ddi-bapur i roi gwybod am symudiadau ymlaen llaw yn dibynnu ar gysylltedd digidol ac fel y nodwyd, mae'r ddarpariaeth yng nghefn gwlad Cymru yn gyfyngedig ac nid yw'r gwasanaeth bob amser yn gyson. Mae angen rhoi darpariaeth a phrosesau ar waith ar gyfer ardaloedd nad oes ganddynt ddarpariaeth ddigidol neu ar gyfer adegau pan fo problemau dros dro gyda'r gwasanaeth.
- Mae gan dagiau EID gwartheg oes fyrrach na thagiau nad ydynt yn rhai EID, felly bydd yn ofynnol i geidwaid osod rhai newydd yn lle'r hen rai yn amlach.
- Bydd angen gweithredu EID gwartheg a Chanolfannau Cofnodi Canolog (CPRC) yn raddol er mwyn darparu ar gyfer trin gwartheg EID a gwartheg nad oes ganddynt EID am gryn dipyn o amser eto. Bydd gweithredu'r cynigion ar gyfer adrodd yn yr ymgynghoriad yn wirfoddol yn ei gwneud yn ofynnol i CPRC orfod darparu ar gyfer y ddau fath o adroddiadau symud a rhedeg systemau a phrosesau ar gyfer y ddau. Efallai y bydd newidiadau i'r EID a'r newidiadau posibl i'r drefn o roi gwybod am symudiadau ymlaen llaw yn cymryd llawer o amser ac yn gostus i'r busnesau hyn.

- Defnyddir dogfennau symud papur at ddibenion cysoni a chadarnhau manylion ceidwad ac anifeiliaid, er mwyn sicrhau y gellir gweithredu'r cynigion, bydd angen newidiadau i becynnau meddalwedd y farchnad a lladd-dai er mwyn caniatáu i'r prosesau CPRC presennol gael eu newid.
- Gellid ystyried bod cael gwared ar basbortau yn llacio'r mesurau diogelu presennol ar symud gwartheg a gallai anifeiliaid nad ydynt yn addas i'w bwyta gan bobl fynd i'r gadwyn fwyd os na lynir wrth brosesau.
- Bydd symudiadau trawsffiniol yn cael effaith sylweddol gan mai dim ond yng Nghymru y gall Llywodraeth Cymru reoli'r gwaith rheoleiddio a rhoi gwybod am symudiadau.
- Mae diwygiadau i reoliadau yn rhoi pwysau ar bawb sy'n ymwneud â'r diwydiant sy'n gorfod cadw at y gofynion rheoliadol diwygiedig. Gall hyn yn ei dro roi gormod o straen a phryder ar unigolion a'u busnesau.

8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu
- yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd adborth ac ymatebion a dderbynnir fel rhan o'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i nodi, archwilio a lleihau unrhyw effeithiau negyddol posibl ar ein cynigion ymhellach. Bydd y rhain yn cael eu hystyried cyn datblygu deddfwriaeth. Bydd ymgysylltu parhaus â'r diwydiant yn llywio datblygiad polisi ymhellach ac asesiad effaith ein cynigion.

8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Pan ddaw'r cyfnod ymgynghori ffurfiol i ben, bydd yr holl ymatebion yn cael eu hadolygu a'u bwydo i'r crynodeb o'r ymatebion a ddarperir i'r Gweinidog. Bydd yr ymatebion yn penderfynu a yw'r cynigion ymgynghori'n cael eu datblygu ac i ba raddau. Er y bydd yr holl gynigion yn cael eu galluogi ar EIDCymru yn wirfoddol, mae'r diwygiadau deddfwriaethol yn dibynnu ar yr ymatebion a ddaw i law a bydd angen cytundeb Gweinidogol arnynt. Rhagwelir y bydd nifer o'r cynigion yn parhau'n wirfoddol hyd nes y bydd y systemau wedi cael amser i ymsefydlu a gall y diwydiant ddechrau sylweddoli'r budd a ddaw yn sgil y cynigion llawn. Bydd adolygu a gwerthuso systemau a pholisïau ar ôl gweithredu yn parhau wrth i ddatblygiadau technoleg ac olrhain barhau i esblygu.

Rhagwelir y bydd gwelliannau deddfwriaethol yn cael eu cwblhau erbyn 2023 ac rydym yn cynnig y bydd y gofynion polisi yn cael eu hadolygu o fewn cyfnod addas yn dilyn hyn.

ASESIADAU EFFAITH LLAWN

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Mae'r cynigion ymgynghori yn ymwneud â chofnodi'r cofrestriad a'r symudiadau ar gyfer gwartheg, defaid, geifr a moch. Er mwyn cofrestru anifail neu gofnodi symudiad anifail, rhaid i'r ceidwad fod â Rhif y Daliad (CPH) cofrestredig. Dim ond i bobl dros 18 oed y gellir dyrannu CPH. Er y gall yr anifeiliaid hyn fod yn eiddo i bobl ifanc, gan gynnwys y rheini dan oed, dylent gael eu goruchwyllo gan oedolyn dros 16 oed. Yng ngoleuni hyn, bernir bod yr effaith ar Blant a Phobl Ifanc yn isel iawn.

Fodd bynnag, gallai'r newidiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad arwain at symleiddio'r broses o roi gwybod am symudiadau da byw a lleihau beichiau gweinyddol. Gallai hyn yn ei dro wneud ffermio yn opsiwn gyrfa mwy deniadol i bobl ifanc. Gallai hefyd arwain at gyfleoedd i bobl ifanc fyw a gweithio'n lleol, gan gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau gwledig, cadernid economaidd a chymunedau.

Mae CFFI Cymru yn aelodau o'n grŵp cynghori ar Adnabod Da Byw ac fe'u hanogwyd i gymryd rhan yn ein cynigion polisi. Yn ystod y cyfnod ymgynghori byddwn yn targedu'r grŵp hwn yn benodol i gael eu barn ar y newidiadau arfaethedig i sicrhau bod lleisiau'r diwydiant ffermio yn y dyfodol yn cael eu clywed.

2. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Yn yr adran hon mae angen asesiad sy'n rhoi barn wybodus ynghylch effaith debygol y cynnig ar hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n hollbwysig eich bod yn osgoi'r dybiaeth bod y canlyniadau y bwriedir eu cael, fel y'u nodir uchod, yr un peth â'r effaith a ragwelir ar hawliau plant

Bydd angen i chi ystyried yn ofalus sut mae'r canlyniadau y bwriedir eu cael yn cysylltu â hawliau plant a pha effaith a gânt. Efallai y rhagwelir effeithiau sy'n wahanol i'r canlyniadau y bwriedir i'r cynnig eu cael.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol o'n cynigion ar hawliau plant o dan UNCRC, felly ni fyddwn yn cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant (CIRA).